Atodiad 2 – Crynodeb o Ymateb CNC i Sylwadau Cyngor Gwynedd ar yr Ymgynghoriad Blaenorol

| Crynodeb o'r Mater a Godwyd | Ymateb CNC | Sylwadau Cyngor Gwynedd |
|---|---|---|
| Yr effaith ar Brisiau Tai<br><br>Mae gwaith ymchwil gwnaed gan 'Nationwide' yn dangos fod prisiau tai yn gallu codi hyd at 25% o fewn Parciau Cenedlaethol ac mae llawer o bobl Gwynedd yn cael ei brisio allan o'r farchnad yn barod oherwydd bod prisiau tai yn uchel i gymharu â chyflog cyfartaledd y Sir. | <br><br>Mae CNC wedi comisiynu ARUP i gynnal adroddiad effaith Economaidd sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn.<br><br>Mae'r adroddiad yn cytuno bod prisiau tai cyfartalog o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol yn gyffredinol yn uwch nag ardaloedd cyfagos ac yn adnabod gall arwain tuag at gynnydd posibl mewn galw am dai a chyflenwad cyfyngedig. Ond mae'r adroddiad yn nodi gall APCau weithredu polisïau i gyfyngu ar brisiau tai ac mae'n tynnu sylw at bolisi CDLl Parc Cenedlaethol Eryri o flaenoriaethu tai ar gyfer cymunedau lleol, gyda datblygiadau newydd fel arfer yn gyfyngedig i dai ar raddfa fach neu fforddiadwy i drigolion lleol. | <br><br>Nodi'r ymateb. |
| Yr Economi Wledig<br><br>Mae'r ardal o amgylch Llandderfel yn ardal wledig iawn lle mae amaethyddiaeth yn un o'r prif ddiwydiannau. Mae arallgyfeirio yn bwysig i'r sector amaethyddol , ac | <br><br>Mae CNC wedi comisiynu ARUP i gynnal adroddiad effaith Economaidd sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn. | <br><br>Nodi'r ymateb. |

| | | |
|---|---|---|
| mae'n gallu helpu hyfywedd busnesau yng nghefn gwlad. Y pryder ydy y bydd dynodiad Parc Cenedlaethol newydd yn cyflwyno polisïau mwy caeth o ran y fath o ddatblygiadau sydd yn dderbyniol o fewn yr ardal | Mae'r adroddiad yn cydnabod bod potensial ar gyfer cyfyngiad cynyddol ar ddatblygiad masnachol mewn parciau cenedlaethol.<br><br>Mae'r adroddiad hefyd yn nodi gall statws Parc Cenedlaethol godi cydnabyddiaeth ardal ar lefel ryngwladol, gan gynnig manteision hyrwyddo ar gyfer cynhyrchion lleol fel cig eidion, cig oen a chig carw, gan helpu cynhyrchwyr i sicrhau prisiau premiwm. Mae cynllun 'Ffermio Bro', er enghraifft, bellach ar gael i ffermydd o fewn Parc Cenedlaethol neu Dirwedd Genedlaethol. | |
| <u>Yr Economi Ymwelwyr a Thwristiaeth</u><br><br>Mae gor dwristiaeth yn fater sydd yn peri pryder yn rhannau o Wynedd yn enwedig ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae hyn yn arwain at broblemau parcio, tagfeydd ar y ffyrdd lleol, sbwriel a llygredd sy'n arwain at wrthdaro â'r gymuned leol. Mae pryder bydd dynodi Parc Cenedlaethol yn yr ardal yma yn arwain at gynnydd yn y nifer o bobol sydd yn ymweld â'r ardal. Gall arwain at fwy o ail dai a llety gwyliau. | <br><br>Mae CNC wedi comisiynu ARUP i gynnal adroddiad effaith Economaidd sy'n mynd i'r afael â'r materion hyn.<br><br>Mae'r adroddiad yn cydnabod yn ogystal â gwariant cynyddol, mae ymwelwyr ychwanegol hefyd yn dod â risg o or dwristiaeth. Gallai hyn greu pwysau mewn lleoliadau penodol ac ar drafnidiaeth a gwasanaethau. Fodd bynnag, gallai APC newydd hefyd helpu i liniaru'r effeithiau hyn trwy ddarparu rheolaeth dargedig o'r | <br><br>Nodi'r ymateb. |

| | | |
|---|---|---|
| | ardal, ynghyd â pholisïau ehangach fel y dreth ymwelwyr arfaethedig yng Nghymru. | |
| <u>Iaith Gymraeg</u><br><br>Gall y materion sydd wedi ei nodi uchod e.e. diffyg argaeledd tai sydd yn fforddiadwy i bobl leol gael effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg.<br><br>Mae'r ymchwil a wnaeth Cyngor Gwynedd i gyfiawnhau cyflwyno cyfarwyddyd Erthygl 4 yn glir yn dangos bod cydberthynas rhwng niferoedd uchel o ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr a'r iaith Gymraeg. | Mae CNC wedi cynnal asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg sy'n datgan ni fydd dynodi Parc Cenedlaethol newydd yn debygol o gael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg, effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg, na thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Mae'r ardal arfaethedig i'w chynnwys yn y Parc Cenedlaethol newydd yng Ngogledd-orllewin Cymru yn cynnwys rhannau o Wynedd sy'n cael eu cydnabod fel un o gadarnleoedd y Gymraeg, lle mae'n cael ei defnyddio yn ddyddiol. Gallai ymgorffori'r cymunedau hyn mewn Awdurdod Cynllunio Lleol newydd sy'n cynnwys sawl awdurdod unedol - llawer ohonynt â lefelau is o ddefnydd y Gymraeg - beryglu gwanhau'r ffocws ar ystyriaethau Cymraeg mewn cynllunio a pholisi. Gallai hyn gael effaith negyddol ar statws yr iaith a'r defnydd bob dydd mewn ardal lle mae'n ffynnu ar hyn o bryd.<br><br>Er bod asesiad ar effaith yr iaith Gymraeg wedi ei gynnal nid yw'r Cyngor o'r farn bod modd lliniaru'r effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal arfaethedig sy'n disgyn o fewn ACLl Gwynedd. |
| <u>Cynllunio</u> | | |

| | | |
|---|---|---|
| Polisi Cynllunio - Bydd y penderfyniad terfynol ar ddynodi'r parc cenedlaethol newydd yn cael ei wneud tua'r un amser ag y bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal ein hymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Adnau (Cynllun Datblygu Lleol). Mae angen arweiniad gan y Llywodraeth / CNC ar sut y dylai Cynllun Datblygu Lleol newydd Gwynedd ymdrin â'r parc cenedlaethol arfaethedig yn yr ardal sydd o fewn Gwynedd.<br><br>Rheoli Datblygu - Mae angen arweiniad ar sut yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio yn yr ardal o fewn Gwynedd. A fydd Gwasanaeth Rheolaeth Datblygu Cyngor Gwynedd yn cynnal y gwasanaeth hwn hyd nes y bydd yr Ardal Cynllunio Leol (ACLl) newydd wedi ei sefydlu a staff newydd yn cael eu penodi? Neu a fydd y gwasanaeth hwn yn cael ei allanoli i Gyngor Gwynedd am ffi ar ôl i'r ACLl cael ei sefydlu? | O dan ddeddfwriaeth, Awdurdod Parc Cenedlaethol ('APC') fyddai'r Awdurdod Cynllunio Lleol ('ACLl') ar gyfer ffin y Parc Cenedlaethol, a byddai'n gyfrifol am Flaengynllunio (Cynllun Datblygu Lleol) a Rheoli Datblygiadau.<br><br>Mae'r adroddiad Adolygiad o Wasanaethau Cynllunio a baratowyd gan Arup yn cynnwys modelau amgen ar gyfer cyflawni'r gwasanaeth cynllunio. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ar hyn eto, gan y byddai angen i APC newydd ei ystyried, os caiff un ei greu, mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol o fewn ei ffiniau a Llywodraeth Cymru. Bydd yr adroddiad a gynhyrchwyd gan Arup yn helpu i lywio unrhyw drafodaethau yn y dyfodol.<br><br>Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi codi pryderon ynghylch gwastraffu adnoddau os oes angen ailysgrifennu Cynlluniau Datblygu Lleol ar ôl cadarnhau Parc Cenedlaethol newydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried yr amserlen ar gyfer sefydlu Awdurdod Parc Cenedlaethol a throsglwyddo swyddogaethau | Yr unig sicrwydd sydd gennym ydy bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn Awdurdod Cynllunio Lleol.<br><br>Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynghylch pa fath o wasanaeth cynllunio fydd gan y parc cenedlaethol newydd, felly nid ydym yn gallu bod yn sicr na fydd effaith negyddol ar y gwasanaethau cynllunio presennol.<br><br>O ran y CDLl, mae'n anghywir I CNC datgan:<br><br>*"...ystyried bod y risg i Awdurdodau Cynllunio Lleol o gefnu ar Gynlluniau Datblygu Lleol presennol, neu sy'n cael eu datblygu, yn isel yn enwedig ar gyfer ardaloedd sydd eisoes yn AHNE, ac felly mae'n annhebygol y bydd yn rhan bwysig o unrhyw Gynllun Datblygu Lleol"*<br><br>Yr arweiniad a gawsom gan Is adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yw na ddylai unrhyw CDLl gynnwys rhannau o Awdurdod Cynllunio Lleol gwahanol.<br><br>Gall y ddisgwyl am y penderfyniad o ddynodi'r parc cenedlaethol newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | cynllunio ac mae'n ystyried bod y risg i Awdurdodau Cynllunio Lleol o gefnu ar Gynlluniau Datblygu Lleol presennol, neu sy'n cael eu datblygu, yn isel yn enwedig ar gyfer ardaloedd sydd eisoes yn AHNE, ac felly mae'n annhebygol y bydd yn rhan bwysig o unrhyw Gynllun Datblygu Lleol. Dylid monitro a thrafod y mater hwn rhwng yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a Llywodraeth Cymru gan gofio mai Llywodraeth Cymru sydd â rheolaeth yn y pen draw dros amseriad cadarnhau Gorchymyn Dynodi.<br><br>Dylid monitro a thrafod y mater hwn rhwng yr Awdurdodau Cynllunio Lleol a Llywodraeth Cymru gan gofio mai Llywodraeth Cymru sydd â rheolaeth yn y pen draw dros amseriad cadarnhau Gorchymyn Dynodi.<br><br>O ran ceisiadau cynllunio unigol, mae'n annhebygol y bydd bodolaeth arfaethedig Parc Cenedlaethol yn effeithio ar y rhan fwyaf o benderfyniadau, gan y byddai datblygiad yn dod o fewn hawliau datblygu a ganiateir sy'n<br>bodoli ar hyn o bryd mewn llawer o achosion. | neu beidio cael effaith ar amserlen CDLl Gwynedd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Fodd bynnag, ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, argymhellir bod ACLl yn cynghori datblygwyr bod Parc Cenedlaethol newydd yn yr arfaeth ac y dylent fod yn ymwybodol o'r risg ynghlwm wrth hynny wrth fwrw ymlaen â'u cais. Bydd perthnasedd Parc Cenedlaethol newydd yn cynyddu ymhellach yn y broses, ac awgrymir bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ceisio eu cyngor eu hunain mewn perthynas â materion mwy cymhleth. | |
| <u>Cyllideb</u><br><br>Mae angen mwy o wybodaeth ar sut bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ariannu. Noder fod 25% o gronfeydd Parciau Cenedlaethol yn dod gan yr Awdurdodau Lleol cyfansoddol. Yn yr hinsawdd ariannol gyfredol mae pob corff cyhoeddus yn ei wynebu, mae pryderon sylweddol am y baich ychwanegol fydd hyn yn rhoi ar y Cyngor. | Rydym yn falch o nodi, yn dilyn sylwadau mewn perthynas â'r mater hwn a'ch galwadau am eglurder, fod Dirprwy Brif Weinidog Cymru wedi ymateb ac ysgrifennu at Awdurdodau Lleol (gellir gweld copi o'r llythyr yn atodiad 3). Mae llythyr y Dirprwy Brif Weinidog yn cynnwys y sylwadau canlynol:<br><br>*"Mae'n gwbl hanfodol bod Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ariannu'n briodol heb leihau'r cyllid craidd ar gyfer ein Hawdurdodau Parciau Cenedlaethol presennol, a* | Falch i dderbyn llythyr gan y Dirprwy Gweinidog ond nid yw'n darparu sicrwydd.<br><br>Mae ymateb CNC yn datgan bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi sicrwydd na fydd Awdurdodau Lleol dan anfantais ariannol ond chan nad yw Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid ychwanegol ar gyfer y parc cenedlaethol newydd, nid oes unrhyw wybodaeth ynghylch o ble mae'r cyllid hwn yn dod. |

| | | |
|---|---|---|
| | *hefyd heb leihau'r cyllid sydd ar gael i Awdurdodau Lleol Cymru. Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor hon"…*<br><br>*"Rwyf wedi ystyried y costau refeniw craidd tebygol sy'n deillio o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 sy'n gofyn am gyllid gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol cyfansoddol yr APC. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyllid ychwanegol i ddiwallu'r ddau ofyniad hyn yn llawn pe bai Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei ddynodi. Hynny yw, ni fyddai unrhyw faich ariannol yn cael ei roi ar eich Cyngor i ddarparu cyllid i Barc Cenedlaethol newydd,"* | |
| <u>Llywodraethu</u><br><br>Ar hyn o bryd nid oes manylion ynglŷn â sut y bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei Lywodraethu. Bydd angen manylder clir ynglŷn â hyn cyn yr ymgynghoriad statudol, er mwyn rhoi cyfle rhesymol i Gyngor Gwynedd roi barn ar hyn.<br><br>Fyddai'r Cyngor yn cael eu cynrychioli ar yr Awdurdod Parc Cenedlaethol newydd? Mae hyn i'w gyffelybu a sefyllfa yn Ne Parc Cenedlaethol Eryri | <br><br>Rydym yn cydnabod mai ardal fach o Wynedd sydd wedi'i chynnwys o fewn y ffin arfaethedig (ychydig dros 11 km2 a llai na 2% o gyfanswm yr arwynebedd). Hefyd dim ond anheddiad Llandderfel sydd wedi'i gynnwys. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch cymesuredd goblygiadau llywodraethu. Rydym wedi codi hyn gyda Llywodraeth Cymru ac wedi nodi cynsail perthnasol mewn perthynas ag enghreifftiau cymharol eraill yng | <br><br>Nid oes manylion ynglŷn â sut y bydd y Parc Cenedlaethol newydd yn cael ei Lywodraethu. Mae angen manylion ynglŷn ag os bydd y Cyngor yn cael ei chynrychioli neu yn cyfrannu ar yr Awdurdod neu beidio.<br><br>Gan nad oes arweiniad cadarn wedi cael ei ddarparu ar y mater yma, er i ni godi'r mater yn ein hymateb ymgynghori blaenorol, ni all Cyngor Gwynedd wneud sylw ar hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| sydd o fewn ffiniau Cyngor Powys ble nad ydynt yn rhan o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. | Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl ar hyn o bryd y byddai Cyngor Sir Gwynedd yn cael ei gynrychioli ar Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC).<br><br>Bydd ardal weinyddol APC newydd yn cwmpasu nifer o awdurdodau unedol. Bydd yr awdurdodau unedol hyn yn cadw cyfrifoldeb am wasanaethau llywodraeth leol, ac eithrio cynllunio, y bydd cyfrifoldeb amdano yn disgyn ar y APC newydd. Byddai llywodraethu priodol yn cael ei ystyried yn ofalus fel rhan o gyfnod pontio a sefydlu, pe bai Parc Cenedlaethol yn cael ei gadarnhau. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i rôl CNC, sydd ar dasg o wneud yr asesiad yn unig. Byddai CNC yn disgwyl i Gyngor Sir Gwynedd, fel aelod o'r APC newydd posib, allu cyfrannu at drafodaethau cychwynnol ar lywodraethu. | |
| <u>Ardal Ymgeisiol ac yr angen am Barc Cenedlaethol newydd.</u><br><br>Mae’r ardal o Wynedd sydd yn cael ei ystyried i fod yn rhan o’r Parc Cenedlaethol yn ffinio efo Parc Cenedlaethol Eryri. Cafodd yr ardal yma ei ystyried wrth benderfynu ar ffiniau Eryri? Os felly pam nad oedd | <br><br>Mae sail hanesyddol i'r cynigion cyfredol o ran ystyriaeth a roddwyd i'r ardal yn flaenorol. Nododd Adroddiad Pwyllgor y Parciau Cenedlaethol (Lloegr a Chymru) dan gadeiryddiaeth Syr Arthur Hobhouse dir Parc | <br><br>Nid yw Cyngor Gwynedd yn fodlon â'r rheswm a roddwyd yn hymateb CNC am gynnwys rhan o Wynedd yn y Parc Cenedlaethol newydd.<br><br>Nodwyd fod yr ardal o Wynedd sydd |

| | | |
|---|---|---|
| wedi ei gynnwys o fewn ffin Parc Cenedlaethol Eryri? Beth sydd wedi newid o ran tirwedd yr ardal ymgeisiol ers dynodi Parc Cenedlaethol Eryri ac AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy? Mae pum Tirwedd Genedlaethol yng Nghymru - oes rheswm penodol am ddewis yr ardal yma dros unrhyw ardal arall? | Cenedlaethol ac Ardaloedd Cadwraeth posibl (a elwid yn ddiweddarach yn AHNE a Thirweddau Cenedlaethol) a oedd yn cynnwys Bryniau Clwyd a'r Berwyn. Cafodd yr ardal o Wynedd sydd wedi'i chynnwys o fewn ffiniau arfaethedig presennol Parc Cenedlaethol Glyndŵr ei nodi'n wreiddiol gan Hobhouse fel tir AHNE posibl i'w gynnwys yn Y Berwyn. | wedi'i chynnwys o fewn ffiniau arfaethedig presennol Parc Cenedlaethol Glyndŵr ei nodi'n wreiddiol gan Hobhouse fel tir AHNE posibl i'w gynnwys yn Y Berwyn ac nid i'w gynnwys ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Nid yw'n glir beth sydd wedi newid yn y tirwedd i'w gynnwys yn y parc cenedlaethol newydd. |